WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru**

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320502
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 20 Tachwedd 2012
Ein cyf: HVT/1762/fgb


Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dear Darren

Wedi ei atodi mae copi o'm adroddiad *Cyllid Iechyd: Diweddariad*. Mae'r adroddiad yn diweddaru rhai o'r ffigurau o'm hadroddiad ym mis Gorffennaf 2012, *Cyllid Iechyd*. Dangosodd adroddiad mis Gorffennaf fod y GIG yng Nghymru yn wynebu heriau mawr, â bwlch ariannol sydd yn tyfu ynghyd â setliad ariannol anoddach na rhannau eraill y DU. Mae'r diweddariad yn nodi safle ariannol cyrff y GIG yn chweched mis y flwyddyn ariannol bresennol. Mae hyn wedi ei seilio'n gyfan gwbl ar y data a gafodd ei adrodd gan gyrff y GIG i Lywodraeth Cymru, gan osod y safle ariannol bresennol, y safle diwedd flwyddyn posib a chynnydd o ran cynlluniau arbed. Mae yna rai pwyntiau pwysig sydd angen eu dwyn at sylw'r Pwyllgor.

Yn gyffredinol, mae'r GIG mewn sefyllfa ariannol well na'r un amser llynedd. Fodd bynnag, mae hynny'n bennaf oherwydd arian ychwanegol rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2011. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r ariannu rheolaidd yn gymorth i ddiweddu patrwm cyrff y GIG o or-wario, ynghyd â'r rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i darparu arian ychwanegol iddyn nhw yn ystod y flwyddyn er mwyn iddynt fantoli'r cyfrifon. Mae hi'n ymddangos yn debygol iawn nad yw'r patrwm hyn wedi dod i ben. Mae'n annhebygol y bydd y rhan fwyaf o'r Byrddau Iechyd yn cwrdd â'u costau o fewn ffiniau eu cyllidebau presennol. Bydd y Pwyllgor yn sicr o fod yn ymwybodol i'r Gweinidog dros Iechyd gomisiynu adolygiad canol-blwyddyn o sefyllfa ariannol a pherfformiad nad yw'n ariannol cyrff y GIG, sydd bron a'i orffen yn ôl fy nealltwriaeth i.

Mae'r Cyrff Iechyd yn gwneud peth cynnydd â'u cynlluniau o ran arbedion, ond mae hi'n glir nad yw hyn yn ddigonol. Yn dilyn dwy flynedd sydd wedi bod â chanolbwynt trwm ar arbedion, mae hi'n anodd dod o hyd i'r arbedion a'r meysydd y gellir arbed ynddyn nhw. Mae'r Byrddau Iechyd wedi meddu ar ddulliau gwahanol o fynd i'r afael â'u cynlluniau: mae gan rai gynlluniau er mwyn pontio'u bylchau ariannu'n llwyr, tra bod eraill ond wedi gallu datblygu cynlluniau i bontio'r bylchau arian yn rhannol. Fodd bynnag, nid oes yr un Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r arbedion a fwriadwyd erbyn y chweched mis. Mae arbedion i'r gweithlu – y maes mwyaf ar gyfer arbedion sydd wedi eu cynllunio – yn ymddangos yn arbennig o anodd i'w cyflawni. Mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd wedi bwriadu lleihau niferoedd y staff, ond ar y cyfan, mae nifer y staff wedi cynyddu ychydig.

Llinell uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

Mae pob Bwrdd Iechyd wedi adnabod fod yna berygl na fydd yr holl arbedion sydd eu hangen arnyn nhw yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Oherwydd fod y Pwyllgor yn bwriadau cymryd tystiolaeth gan Brif Weithredwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, meddyliais y byddai hi o gymorth i wneud sylw ar yr heriau penodol sydd yn eu hwynebu. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad yn codi rhai cwestiynau penodol ar gyfer y ddau sefydliad. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd yr unig Fwrdd Iechyd â diffyg uwch ar ddiwedd mis Medi 2012 na'r flwyddyn flaenorol. Dim ond o drwch blewyn y mae sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn well eleni na'r un cyfnod llynedd. Mae'r ddau sefydliad ar ei hôl hi yn sylweddol o ran eu cynlluniau cychwynnol ar gyfer arbed arian. Mae'r ddau Fwrdd Iechyd yn rhagweld diffygion diwedd y flwyddyn "tebygol" o £20 miliwn, sydd yn debyg i'w gilydd ac yn sylweddol (mewn perthynas â Byrddau Iechyd eraill).

Ar y cyfan, â diffyg o £69 miliwn ym mis chwech, mae'r diweddariad yn dangos fod cyrff y GIG yn wynebu her fawr yn ystod y chwe mis nesaf er mwyn rheoli eu gor-wario. Mae cyllidebau Llywodraeth Cymru, sydd yn cynnwys y gyllideb ddrafft ddiweddaraf, yn dangos y bydd pwysau ariannol yn parhau hyd y gellir rhagweld. Fel sydd wedi ei ddweud gennym mewn nifer o adroddiadau blaenorol, mae'r pwysau ariannol hyn yn dangos fod angen cynlluniau arbed realistig yn y tymor-byr, yn cynnwys rhai penderfyniadau anodd o ran arbedion ar gostau'r gweithlu; a thrawsnewidiadau brys i fodelau gofal a darpariaeth newydd sydd yn gynaliadwy ac yn darparu gwasanaethau gwell i gleifion.

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg*